**Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona**

**Cyfarfodydd Teams Rhithwir, Dydd Mawrth 6 Hydref 2020 am 12:30**

## 1. Yn bresennol

### Senedd Cymru

John Griffiths AS - Cadeirydd (Llafur, Dwyrain Casnewydd)
Elin Jones AS - Llywydd (Plaid Cymru, Ceredigion)
Mark Isherwood AS (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)
Neil Hamilton AS - (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP) Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Mia Rees - (Staff Cymorth Suzy Davies AS, Ceidwadwyr Cymru, Gorllewin De Cymru)
Mike Bryan - (Staff Cymorth Angela Burns AS, Ceidwadwyr Cymru, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Ioan Bellin - (Staff Cymorth Helen Mary Jones AS, Plaid Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Thomas Pinder - (Staff Cymorth David Melding AS, Ceidwadwyr Cymru, Canol De Cymru)
Hannah McCarthy - (Staff Cymorth Jack Sargeant AS, Llafur Cymru, Alyn a Glannau Dyfrdwy)
Ash Lister - (Staff Cymorth Hannah Blythyn AS, Llafur Cymru, Delyn)
Andrew Bettridge – (Uwch Swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AS)

### Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Staff

Alun Michael - Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a chadeirydd Plismona Cymru
Dafydd Llywelyn - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Jeff Cuthbert - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Cerith Thomas - Cynghorydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd Cymru
Carys Morgans - Prif Weithredwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Sian Curley - Prif Weithredwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

### Prif Gwnstabliaid a Staff

Carl Foulkes - Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
Pam Kelly - Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent
Matt Jukes - Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru
Claire Parmenter - Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys
Paul Morris - Pennaeth Uned Cyswllt yr Heddlu
Uwcharolygydd Dros Dro Steve Thomas - Uned Cyswllt yr Heddlu
Lynda Young - Uned Gyswllt yr Heddlu, Ysgrifennydd y grŵp

**Gwahoddedigion**

Karin Phillips - Dirprwy Gyfarwyddwr - Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Mark Collins - Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed Powys

3. **John Griffiths AS, Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac eglurodd mai diben y cyfarfod oedd rhoi cyfle i Aelodau o'r Senedd drafod plismona yng Nghymru, ymateb yr Heddlu i Covid-19, gweithio mewn partneriaeth a'r ffordd orau o ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd yn y dyfodol.

4. **Alun Michael - Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru**

Rhoddodd AM drosolwg o blismona yn ystod pandemig Covid gan nodi er bod Covid wedi bod yn gyfnod anodd i lawer, roedd hefyd wedi bod yn gyfnod o ddysgu a datblygu. Dysgu sut i weithio gyda'n gilydd, o fewn pedwar heddlu a CHT Cymru, yn enwedig gyda swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, gyda chyfleoedd cyswllt rheolaidd i drafod ymateb effeithiol, a thrwy hynny helpu i aeddfedu'r berthynas rhwng plismona--gwasanaeth sydd heb ei ddatganoli--a Llywodraeth Cymru, a'r meysydd yr oedd yn gyfrifol amdanynt megis iechyd a llywodraeth leol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr heddlu'n gwerthfawrogi'r cyfle i allu siarad ag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn gan ei fod wedi bod yn hynod ddefnyddiol.

Roedd yr hen Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, a elwir bellach yn Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â theitl newydd grŵp y pedwar Prif Swyddog a Chomisiynydd yr Heddlu yng Nghymru, wedi datblygu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, gyda lefel sylweddol o gydweithredu ar yr heriau o fewn y system cyfiawnder troseddol. Roedd y dull gweithredu cydgysylltiedig o ailagor llysoedd wedi cael ei gydnabod gan Weinidogion y DU o ran sut roedd y model a'r dull gweithredu'n gweithio'n dda yng Nghymru.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru hefyd wedi datblygu yn ystod yr amser hwn. Roedd y cyfarfod a grëwyd gan bedwar Prif Swyddog a Chomisiynydd yr Heddlu Cymru i ymgysylltu â'r Prif Weinidog, Gweinidogion a swyddogion wedi mynd i'r afael â nifer o faterion megis mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, sut rydym yn delio â materion cydraddoldeb ac ymgysylltu ar y mater hanfodol hwn, gan gynnwys yr ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys.

Roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi llunio adroddiad ar gydweithredu a gyfeiriodd at Gymru fel model clodwiw, gan ddangos sut roedd y pedwar Prif Gwnstabl a Chomisiynydd wedi gweithio ar y cyd ar amryw o faterion, gan orfod

mynd i'r afael â gwahanol safbwyntiau yn aml ond yn dal wedi i ddod o hyd i ffyrdd i oresgyn y gwahaniaethau hynny.

I grynhoi, awgrymodd AM, er bod Covid-19 wedi bod yn eithaf negyddol, o ran cydweithredu rhwng yr heddlu, iechyd, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, bu llawer o bethau cadarnhaol, ac maent yn parhau i fodoli.
Gofynnodd CHT Michael i Aelodau o'r Senedd beth oedd eu teimlad cyffredinol am y ffordd yr ymatebodd yr heddlu i argyfwng Covid a beth oedd eu barn am ddarpariaeth gwasanaethau plismona yn y gymdogaeth?

5. **<u>Carl Foulkes - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru</u>**

Esboniodd CF y dull ataliol yng Nghymru, drwy weithio gyda phartneriaid i ddargyfeirio pobl oddi wrth fywyd troseddol gyda rhaglenni fel “Camau Cynnar Gyda'n Gilydd." Roedd dros chwe mil o staff rheng flaen wedi'u hyfforddi yn y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd gyda hyfforddiant yn parhau yn ystod cyfnod Covid. Roedd y rhaglen a'r hyfforddiant eisoes wedi dangos canlyniadau cadarnhaol.

Amlinellodd y gwahanol amgylchedd blismona sydd yn Lloegr o'i gymharu â Chymru a sut roedd y dull gweithredu cenedlaethol yng Nghymru wedi helpu i allu gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn dull mwy cyson. Pwysleisiodd CF nad oedd hyn yn atal heddluoedd rhag gwneud pethau'n wahanol yn eu hardaloedd lleol a oedd yn gwasanaethu eu cymuned orau.

Pwysleisiodd CF fod dull gweithredu lluoedd Cymru drwy gydol Covid yn seiliedig ar ymgysylltu, egluro, annog, ac yn olaf gorfodi (y dull gweithredu '4E' yn Saesneg: *engage, explain, encourage*, ac *enforce*) a ddefnyddiwyd fel dewis olaf, gan bwysleisio nad yw hynny'n golygu nad yw heddluoedd wedi defnyddio gorfodaeth lle bo hynny'n briodol ac yn gymesur. Ar hyn o bryd yng Nghymru roedd dwy fil a hanner o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyflwyno ynghyd â phedwar dirwy digwyddiad cerddoriaeth ac roedd heddluoedd yn dal i chwarae rhan weithredol mewn plismona, ymgysylltu a gorfodi yn y cymunedau lleol yn ôl yr angen. Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, roedd prif swyddogion yn eistedd ar nifer o grwpiau partneriaeth strategol i helpu i gefnogi’r ymgyrch i fynd i’r afael â Covid.

Soniodd CF am y digwyddiad plismona a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth yn y Senedd gan ofyn i Aelodau o'r Senedd beth hoffent ei weld yn y digwyddiad a beth oedd y ffordd orau i lunio cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol neu wrth ymgysylltu yn y dyfodol, naill ai'n rhithiol neu'n bersonol?

Yn ogystal, atgoffodd Mr Foulkes Aelodau o'r Senedd am fynegiadau o ddiddordeb pe bai gan unrhyw un ddiddordeb mewn mynd allan ar batrôl yn eu hetholaethau ar ôl i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu codi.

6. **<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>**

**John Griffiths AS, Cadeirydd**

Dywedodd JG fod ei brofiadau ei hun gyda'r heddlu wedi bod yn dda iawn, ac roedd y Prif Gwnstabl Pam Kelly wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol ac arweinwyr cynghorau lleol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb a rhoi gwybod iddynt am faterion plismona yn ymwneud â Covid. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi cyfleu adborth cadarnhaol gan y gymuned leol ynghylch plismona rhagweithiol gweladwy yn y gymuned.

Yna gofynnodd JG a oedd gan unrhyw Aelodau o'r Senedd unrhyw gwestiynau.

**Elin Jones AS – Llywydd, (Plaid Cymru) Ceredigion**

Soniodd EJ am ei phrofiadau ei hun o Geredigion gyda Heddlu Dyfed-Powys a'r awdurdod lleol gan nodi bod y gwaith wedi bod yn rhagorol ac wedi lleihau tensiynau posibl o ganlyniad i gyflwyno cyfyngiadau symud lleol a oedd hefyd yn effeithio ar ymwelwyr yn dod i'r ardal. Roedd hyn i gyd yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar yr ymateb ar lefel leol. Dywedodd hefyd, o ran ei rôl fel Llywydd ac wrth siarad ag Aelodau, y tu mewn a thu allan i'r Siambr o bob rhan o Gymru, fod pawb wedi bod yn ganmoliaethus iawn o gydweithrediad amrywiol asiantaethau, yn enwedig awdurdodau lleol a'r heddlu wrth ddelio â'r rheoliadau.

**Jeff Cuthbert - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent**

Diolchodd JC i John Griffiths am ei eiriau cadarnhaol gan nodi bod Heddlu Gwent yn ymfalchïo mewn dull un gwasanaeth cyhoeddus, fel pob un o'r pedwar gwasanaeth heddlu a chomisiynydd yn gweithio gyda'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan nodi oni bai am y dull hwn o weithredu a pharodrwydd y cyhoedd i gydweithred, gallem fod mewn sefyllfa wahanol. Tynnodd JC sylw at y ffaith nad oedd adnoddau'r heddlu yn agos at y lefelau yr oeddynt o'u cymharu â 2010 er gwaethaf yr ymgyrch recriwtio diweddar a phwysleisiodd, heb gefnogaeth aelodau'r cyhoedd, y gallai pethau fod yn wahanol iawn.

**Pam Kelly - Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent**

Tanlinellodd PK bwysigrwydd perthnasoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn a sut roedd perthnasoedd cryf da gydag awdurdodau lleol wedi cynorthwyo gyda gorfodi ar y cyd a gyrru cynlluniau yn eu blaen.

Lleisiodd bryderon ynghylch iechyd meddwl, bregusrwydd a cham-drin domestig a pha mor bwysig yw hi ein bod i gyd yn ei ddeall ac yn gwrando ar yr hyn y mae ein cymunedau'n ei deimlo, gan groesawu adborth gan arweinwyr ac adborth rhanddeiliaid allweddol. Parhaodd troseddu arferol ac yn anffodus roedd llawer o droseddwyr hefyd wedi manteisio ar y cyfnod hwn ynghyd â'r effaith economaidd a roedd Heddlu Gwent eisoes wedi cynnydd o 25% yn nifer y rhai yn y ddalfa. Dangosa hyn bwysigrwydd sut rydym i gyd yn cadw llygad barcud ar ein cymunedau gyda'n gilydd o ran rhai sy'n agored i niwed a'r effaith ar yr economi, sydd, yn ei dro, yn effeithio effaith ar lefelau troseddu.

**Matt Jukes - Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru**

Cydnabu MJ mai hwn yw'r cyfnod gorau dros y 10 mlynedd diwethaf o ran cael mynediad at Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol a gallu ymgysylltu â nhw, gyda chynnydd yn amlder ac ansawdd yr ymgysylltu, a diolchodd MJ i Aelodau o'r Senedd a'r arena wleidyddol ehangach am eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad o bob plaid a chymuned.

Tynnodd MJ sylw at y gwaith ychwanegol yr oedd yr heddlu wedi bod yn ei wneud i ymgysylltu â'r aelodau hynny o'r gymuned a oedd fwyaf agored i niwed, nid yn unig dioddefwyr cam-drin domestig ond hefyd plant sy'n agored i niwed nad oeddent yn yr ysgol oherwydd y cyfyngiadau symud ac felly'n llai gweladwy, ac roedd hynny wedi effeithio ar ble roedd yr heddlu fel arfer yn casglu eu hatgyfeiriadau amddiffyn plant. Nawr bod plant yn ôl mewn ysgolion, roedd swyddogion ysgol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn gallu cyflawni'r rhan bwysig iawn honno o waith ymateb yr heddlu i blant sy'n agored i niwed.

Codwyd pryderon ynghylch y ffactor risg uwch sy'n wynebu ein cymunedau amrywiol mewn dinasoedd ynghyd â’r sefyllfa aelwydydd aml-genhedlaeth a sut roedd yr heddlu’n gweithio’n galed i sicrhau nad oedd unrhyw anghymesuredd o ran sut mae hyn yn cael ei blismona.

Canmolodd MJ gydweithrediad gyda sefydliadau addysg uwch, y prifysgolion ac undebau myfyrwyr lleol a chenedlaethol. Er y codwyd pryderon ynghylch y sefyllfa iechyd ar gampysau, ni fu mwy o alwadau gan gymunedau myfyrwyr o gymharu â chymunedau eraill.

**Dafydd Llywelyn - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Er ei fod yn llwyr gefnogi'r sylwadau blaenorol ac yn cytuno â nhw, roedd DL eisiau ychwanegu golwg gytbwys at y berthynas rhwng plismona a Llywodraeth Cymru. Ar ddechrau'r broses, yn ystod cyfnodau cynnar y firws rhwng canol a diwedd mis Mawrth, nid oedd y berthynas fel y'i disgrifir nawr a'i bod wedi aeddfedu dros y chwe mis diwethaf, gan ddangos ei bod yn bwysig iawn bod y ddeialog agored hon yn parhau.

**Claire Parmenter - Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

Gwnaeth CP sylwad ar bwysigrwydd canolbwyntio ar gyfeiriad plismona yng Nghymru yn y dyfodol. Dysgwyd rhai gwersi da iawn ynghylch darparu gwasanaeth, sut roedd plismona yn ymateb i'r cyhoedd ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Er bod hyn yn dal i fynd rhagddo, roedd strwythur ar waith a fyddai'n edrych ar adferiad a hefyd ar newid ac effeithlonrwydd sefydliadol er mwyn gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

**Mark Isherwood AS - (Ceidwadwyr Cymreig) Gogledd Cymru**

Cododd MI bryderon a drafodwyd yn ddiweddar yn y wasg ynghylch troseddwyr neu ddarpar droseddwyr nad oeddynt yn mynd i'r carchar oherwydd achosion o Covid mewn carchardai, a gofynnodd pa ryngweithio yr oedd rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth carchardai a phrawf yng Nghymru i reoli hyn.

Pa ddarpariaethau neu gynlluniau wrth gefn rydych yn eu gwneud ar gyfer materion trefn gyhoeddus gyda'r pryderon cynyddol ynghylch cyfyngiadau llymach yn lleol neu ledled DU?

**Alun Michael - Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru**

Cadarnhaodd AM ar y dechrau fod rhai pryderon ynghylch rhyddhau carcharorion yn gynnar ond sefydlwyd grŵp gyda chynrychiolaeth gan yr heddlu. O ganlyniad i waith cynllunio da'r grŵp ni welwyd y niferoedd a ofnwyd i ddechrau, felly datryswyd y mater, gan brofi pa mor hanfodol oedd cyfathrebu cynnar a meithrin perthnasoedd wrth ddatrys problemau. Sefydlodd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru grŵp adfer a oedd wedi datblygu i fod yn grŵp llywio ar gyfer y dull gweithredu ar y cyd hwnnw a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd i gynnal y cyswllt cyfathrebu hanfodol hwn a'r gallu datrys problemau hwn drwy ymgysylltu ar lefel uchel.

Mewn perthynas â threfn gyhoeddus, pwysleisiodd mai argyfwng iechyd yw hwn ac felly'r maes iechyd ddylai yrru'r rheoliadau a'r gofynion priodol o ran yr hyn y dylai orfodi fod. Bydd yr heddlu'n cefnogi eu cydweithwyr mewn awdurdodau lleol a'u cydweithwyr ym maes iechyd, ond mewn gwirionedd mae'n ymwneud â chyfrifoldeb unigol ac ar y cyd. Tynnodd AM sylw at gydweithio diweddar a thu ôl i'r llenni yr oedd yr heddlu ac awdurdodau lleol wedi'i wneud gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion yn Ogwr, Bae Caerdydd ac Abertawe.

**Matt Jukes - Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru**

Wrth ateb cwestiynau ynglŷn â threfn gyhoeddus, eglurodd MJ fod plismona yng Nghymru yn gweithio mewn dau ranbarth gyda thri heddlu'r de yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd, tra bod gan Heddlu Gogledd Cymru gysylltiadau gweithredol cryf â gogledd-orllewin Lloegr. Roedd gan yr heddlu gelloedd cydgysylltu rhanbarthol ar gyfer defnyddio adnoddau trefn gyhoeddus ac roedd heddluoedd yn profi ac yn ymarfer eu gallu i symud pobl ar fyr rybudd i symud adnoddau mewn cyn lleied ag 1 awr wrth ymateb i ddigwyddiad brys. Cadarnhaodd MJ fod hyn wedi cael ei wneud sawl gwaith yn ystod y cyfnod hwn, ond ychydig iawn o brotestiadau gwrth-fasg neu wrth-frechiadau fu ledled Cymru, ond gyda phrotestiadau eraill fel Mae Bywydau Du o Bwys a phrotestiadau eraill o Lundain, galwyd ar heddluoedd Cymru yn aml i roi cymorth.

Roedd trefniadau hirsefydledig ar gyfer protestiadau wedi'u cynllunio, yn enwedig ar gyfer y brifddinas yn ne Cymru, ond hefyd ledled Cymru, gan ddwyn ynghyd comandwyr a thimau stryd profiadol iawn. Roedd rhan o fod yn heddlu prifddinas yn golygu bod ganddo lawer o brofiad mewn plismona protestiadau. Yn aml roedd angen galw ar luoedd cyfagos yng Nghymru i roi cefnogaeth ychwanegol ac, fel y gwelwyd yn ddiweddar, roedd swyddogion Heddlu De Cymru wedi darparu cefnogaeth gyfatebol, gan ddangos pa mor effeithiol yr oedd pedwar heddlu Cymru yn cydweithio.

Ychwanegodd MJ na welodd yr heddlu unrhyw broblemau arwyddocaol yn codi o ganlyniad i ryddhau carcharorion yn gynnar.

**Ioan Bellin (Staff Cymorth Helen Mary Jones AS, Plaid Cymru) Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Gofynnwyd a oedd unrhyw anawsterau wrth reoli ffin tref Llanelli, gan mai'r dref yn unig ac nid sir yr effeithiwyd arni gan gyfyngiadau symud lleol.

**Dafydd Llywelyn - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Soniwyd yn fyr, oherwydd maint Sir Gaerfyrddin, ac oherwydd bod yr achos hwn yn lleol i ardal Llanelli, bod angen ymateb gwahanol i hyn er mwyn osgoi goblygiadau ehangach ar ardaloedd eraill yn y sir.

**Claire Parmenter - Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

Roedd dull gweithredu a dargedwyd yr awdurdod lleol a'r heddlu, gan ddefnyddio'r egwyddor 4E gyda gorfodaeth, wedi helpu i leihau'r niferoedd. Cadarnhawyd bod yr achosion mewn nifer fechan o wardiau yn Llanelli, a dyna pam defnyddiwyd dull gweithredu a dargedwyd y tro hwn.

**Dafydd Llywelyn - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Nodwyd bod gwaith yr adrannau trwyddedu mor bwysig yn ystod y cam hwn yn enwedig o amgylch gweithgaredd economi hwyr y nos. Roedd adrannau trwyddedu wedi gweithio'n galed yn Sir Gaerfyrddin yn cynnal nifer o wiriadau ac wedi cau rhai safleoedd am beidio â chyrraedd y safonau yn ogystal â chyhoeddi hysbysiadau gwella, gan bwysleisio nad un asiantaeth yn unig oedd yn gweithio ar orfodi ac roedd yn ddull gweithredu mewn partneriaeth.

**John Griffiths AS, Cadeirydd**

Dywedodd y bu awgrymiadau y gallai fod mwy o gyfyngiadau symud hyper lleol, felly hyd yn oed yn llai na Llanelli, a gofynnodd am ymarferoldeb plismona ardal mor fach?

**Pam Kelly - Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent**

Dywedodd y disgwylid y byddem yn gweld mwy o gyfyngiadau lleol a mwy o gyfyngiadau symud lleol, ac er y byddai'r heddlu bob amser yn cefnogi awdurdodau lleol, y cwestiwn go iawn oedd sut y gellir cynnal hynny gyda'r gwaith atal a gorfodi ychwanegol dros 6 mis arall o bosibl. Wrth edrych ar alwadau plismona ar hyn o bryd roedd rhai o'r galwadau, yn enwedig dros y penwythnos, wedi bod mor brysur â Nos Galan ar brydiau. Felly pryd bynnag y byddai newid o ran y cyfyngiadau, yn lleol neu fel arall, gwelodd plismona gynnydd sylweddol yn y galw yn ogystal â'r disgwyliad gan gymunedau lleol i weld plismona gweladwy a gwaith gorfodi ar y cyd ag awdurdodau lleol. Roedd yn rhaid cynnal hynny drwy newid ymddygiad, a'r newid ymddygiad hwn allai olygu nad oes angen i ni orfodi.

Dros y dyddiau nesaf credwyd y byddai cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am arian a allai fod ar gael i awdurdodau lleol, plismona neu'r ddau, ar gyfer yr hyn a elwid yn Farsialiaid Covid. Nid oedd yn hysbys pa arian fyddai ar gael i blismona, ond roedd

angen cyllid yr heddlu i barhau i gynnal y gwaith atal a gorfodi a oedd yn cael ei wneud. Pwysleisiodd PK fod lluoedd Cymru wir yn croesawu cefnogaeth Aelodau o’r Senedd i sicrhau bod yr arian yn mynd yn uniongyrchol at blismona ac awdurdodau lleol fel y gallai’r arian gael ei ddefnyddio’n gyflym i wneud gwahaniaeth o fewn cymunedau at ddibenion atal a gorfodi ac nid ei ddyrannu mewn mannau eraill.

**Paul Morris - Pennaeth Uned Cyswllt yr Heddlu**

Dymunodd PM ddiolch i'r cadeirydd am gynnal a noddi'r grŵp trawsbleidiol yn ogystal â'r digwyddiad plismona sydd i ddod ym mis Mawrth, ac anogodd Aelodau o'r Senedd a'u staff i hyrwyddo presenoldeb lle bynnag y bo modd.

Tynnodd PM sylw at y cyfweliad diweddar gyda'r Prif Gwnstabl Jukes yn siarad am ymosodiadau ar swyddogion gyda'r cynnydd mewn ymosodiadau sy'n gysylltiedig â Covid, fel pesychu a phoeri. Roedd Llywodraeth y DU yn ystyried cyflwyno cyfamod Heddlu er mwyn rhoi gwell gefnogaeth i swyddogion heddlu a staff yn debyg i gyfamod y lluoedd arfog. Gofynnodd i Aelodau o’r Senedd ystyried sut y gellid cynnig y gefnogaeth hon yng Nghymru er mwyn sicrhau bod swyddogion a staff yng Nghymru yn cael yr un lefel o gefnogaeth yn union ag y gwnaethant yn Lloegr.

**John Griffiths AS, Cadeirydd**

Caeodd JG y sesiwn drwy ddiolch i bawb am eu presenoldeb gan nodi bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran rhoi rhai pethau hynod bwysig i bawb feddwl amdanynt.

Roedd wedi bod yn dda clywed bod ymgysylltu a chyfathrebu wedi bod yn dda ar lefel Cymru ac yn fwy lleol, a diolchodd i bawb am hynny, a phwysleisiodd fod angen i hynny barhau.

Atgoffodd Aelodau am y digwyddiad plismona ddechrau mis Mawrth a fyddai'n ffordd wych o ddechrau'r flwyddyn newydd, gan dynnu sylw at y ffaith ei fod hefyd yn agos at yr ymgyrchoedd etholiadol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cadw ymgysylltiad da rhwng nawr a'r cyfnod hynny ac y byddai ei swyddfa mewn cysylltiad â'r heddlu ac Aelodau o'r Senedd i weld beth yr hoffai Aelodau ei weld yn y digwyddiad a pha lefel o ymgysylltu a ffafrir yn y flwyddyn newydd.